
# CANLLAWIAU I DDELIO EFO GWRYCHOEDD UCHEL





CYNGOR GWYNEDD COUNCIL



# CANLLAWIAU I DDELIO EFO GWRYCHOEDD UCHEL

***Pa ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â'r mater?***

Ers peth amser bellach, mae pwysau o du'r cyhoedd yn mynnu fod y llywodraeth yn chwilio am ateb statudol i'r broblem a achosir gan wrychoedd uchel. Daeth Rhan 8 o Ddeddf Ymddygiad Anghymdeithasol 2003 i rym ar Ragfyr 31ain, 2004. Mae'n creu gweithdrefnau newydd i alluogi awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i ddelio efo cwynion am wrychoedd uchel.

***Beth yw sail unrhyw Gŵyn?***

Sail unrhyw gŵyn yw pan honnir gan berchennog neu ddeilydd eiddo domestig fod gwrych a leolir ar dir sy'n eiddo, neu a feddiennir gan berson arall, oherwydd ei uchder yn gweithredu (i raddau) fel rhwystr i olau neu fynedfa, i'r fath radd fel bod mwynhad rhesymol o eiddo'r achwynwr yn cael ei effeithio er gwaeth.

***Beth a ystyrir fel 'Gwrych Uchel'?***

Deffinir 'Gwrych Uchel' fel llinell o 2 neu ragor o goed neu lwyni bytholwyrdd neu rannol-fytholrwydd sydd dros 2m o uchder. NI ddaw coed neu lwyni unigol o fewn cwmpawd y ddeddfwriaeth hon.

***Beth ellir ei wneud os yw gwreiddiau gwrychoedd yn achosi difrod?***

Mater sifil yw hwn na ddaw o dan y ddeddf hon ac ni fydd Uned Gorfodaeth y Gwasanaeth Cynllunio'n yn delio gyda materion fel hyn.

***Fydd y Cyngor yn codi tâl am ymchwilio i'r gŵyn?***

Byddant, dylid  amgáu tâl o £320 gyda'r cais am ymchwiliad. <u>Nid ad-dalir y tâl hwn ac ni ddigwydd ymchwiliad heb dderbyn cyllid wedi ei glirio.</u> Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adolygu'r tâl hwn unrhyw bryd.

***Ydy'r Cyngor yn rhwym o ymchwilio i bob cwyn am wrychoedd uchel?***

Na.  Gall y Cyngor wrthod derbyn unrhyw gŵyn a ystyrir yn ddisylwedd neu'n ddi-sail neu os teimlir fod yr achwynydd wedi methu cymryd pob cam rhesymol i ddatrys y mater <u>cyn</u> ceisio cynnwys y Cyngor yn y mater.

***Pa 'gamau rhesymol' sydd angen eu cymryd cyn y bydd i'r Cyngor ymchwilio?***

Bydd y Cyngor angen i'r achwynydd ddangos cyn mynd atynt eu bod wedi ceisio dod i gytundeb efo perchennog y gwrych ynglŷn ag uchder rhesymol iddo. Mae'n rhaid i gofnod o hyn gael ei gynnwys gyda'r cais am ymchwiliad sy'n manylu ar geisiadau llafar neu ysgrifenedig a wnaethpwyd i berchennog y gwrych gan yr achwynydd, ynghyd â'i ymateb neu ddiffyg ymateb.

***Cwmni yw Perchennog y Gwrych ac nid unigolyn. A ellir cymryd achos yn erbyn cwmni?***

Gellir. Dylai'r achwynydd gymryd yr un camau rhesymol cyn mynd at y Cyngor, fel y byddid yn gwneud mewn achos o unigolion yn berchnogion gwrych.

***Os yw'r Cyngor yn cytuno i ymchwilio beth fydd y camau cyntaf a gymerir?***

Bydd cyfnewid sylwadau'r ddwy ochr ac ymweliad safle'n digwydd. Mae'r Ddeddf yn rhoi i'r Cyngor hawliau cyfreithiol i gael mynediad i eiddo i ymchwilio cwyn.
Bydd y Cyngor yn penderfynu a fydd y gŵyn yn ddilys yn y ffaith fod y gwrych, yn wir, yn effeithio er gwaeth ar fwynhad rhesymol yr achwynydd o'i eiddo. Ni fydd cyfyngiad amser ar y Cyngor i ddod i benderfyniad. Bydd canlyniad y penderfyniad, ynghyd â rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, yn cael eu gyrru at yr achwynydd a pherchennog y gwrych.

***Os penderfyna'r Cyngor fod y gwrych yn rhy uchel, beth fydd yn digwydd nesaf?***

Os ystyrir yn addas, bydd y Cyngor yn rhoi 'rhybudd adfer' i berchennog y gwrych. Bydd hwn yn gosod allan pa waith ddylid ei wneud i'r gwrych sy'n broblem, pa waith ataliol sydd ei angen i wneud yn siŵr ei bod yn cael ei chynnal ar uchder rhesymol yn y dyfodol, ac yn olaf, y cosbau a ddigwydd os na chydymffurfir ag amodau'r rhybudd. Mae'r rhybudd yn dod yn bridiant ar yr eiddo ac mae'r ymrwymiadau cyfreithiol o dan y cyfryw rybudd yn cael eu trosglwyddo i unrhyw berchnogion dilynol.

***Ydy'r Ddeddf yn rhoi pŵer i'r Cyngor i hawlio fod Perchennog y gwrych yn gostwng uchder y gwrych i lai na 2 fetr?***

Nac ydy. Fodd bynnag, bydd yr uchder sy'n addas i ostwng uchder gwrych penodol yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol.

***Oes terfyn amser i Berchennog y gwrych gydymffurfio?***

Oes. Bydd y rhybudd yn cynnwys 'dyddiad cyhoeddi' a bydd dyddiad o leiaf 28 niwrnod yn ddiweddarach yn cael ei nodi fel 'dyddiad gweithredu'. Bydd hefyd yn nodi 'dyddiad cydymffurfio' a fydd yn gyfnod rhesymol, sy'n caniatáu i berchennog y gwrych y cyfle i gael hyd i wasanaeth contractiwr (os oes angen) ac i wneud y trefniadau i'r gwaith gael ei wneud. Awgrymir nad oes torri gwrych yn digwydd rhwng Mawrth ac Awst, o herwydd fod aflonyddu ar adar nythu yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth gwarchod adar gwyllt. Dim ond ar ôl y cyfnod 'dyddiad cydymffurfio' y gall y Cyngor ddechrau achos o wrthod cydweithredu efo'r rhybudd.

***Beth gyflawna achos o wrthod cydymffurfio?***

Mae’r Ddeddf yn creu trosedd o fethu cydymffurfio gyda ‘rhybudd adfer’. Goblygiadau hyn yw os dyfernir perchennog y gwrych yn euog gan Lys Ynadon, gellir ei ddirwyo hyd at £1000. Gall y llys hefyd benderfynu gorchymyn i berchennog y gwrych wneud y gwaith gofynnol. Ymhellach, mae hefyd yn drosedd i rwystro swyddog o’r cyngor rhag ymarfer ei bŵer o dan y Ddeddf hon, ac os digwydd hynny, mae hyn hefyd yn agored i ddirwy hyd at £1000.

***Beth all y Cyngor wneud os yw perchennog y gwrych yn dal i wrthod cydymffurfio â rhybudd?***

Os yw’n dal i fethu cydymffurfio (heb esgus rhesymol), gall gael ei ddirwyo ymhellach ar raddfa o £50 y diwrnod y mae’r gwaith yn dal heb ei gwblhau. Gall y Cyngor wneud trefniadau i’r gwaith gofynnol gael ei wneud ac yna godi tâl ar berchennog y gwrych am y costau cysylltiedig. Byddid yn cofrestru’r costau hyn fel pridiant tir lleol ac o ganlyniad byddai unrhyw ddarpar brynwr yn prynu’n amodol arnynt.

***Oes hawl apelio?***

Oes. Bydd yn rhaid gwneud unrhyw apêl gan berchennog y gwrych yn erbyn ‘rhybudd adfer’ yn ysgrifenedig a’i yrru at Lywodraeth Cynulliad Cymru o fewn 28 niwrnod o gyflwyno’r rhybudd. Yn gyffelyb, gall yr achwynydd apelio at y Cynulliad pe bai’r Cyngor yn penderfynu peidio cyhoeddi ‘rhybudd adfer’ neu os cyhoeddir ef, ac yna wedyn, dynnu rhybudd yn ôl. Gall y naill barti a’r llall apelio at y Cynulliad yn erbyn rhybudd ar sail y ffaith nad yw un ai’n mynd yn rhy bell neu ar y llaw arall ei fod ddim yn mynd yn ddigon pell.

**BYDDWCH YN SICR O’CH FFEITHIAU!**
**NI AD-DELIR Y TAL**

Cysylltwch gyda’r Uned Gorfodaeth ragor o wybodaeth drwy:

- Yrru e-bost gan ddefnyddio’r ffurflen electroneg ar wefan y Cyngor
- Ysgrifennu at Gwasanaeth Cynllunio, Adran Rheoleiddio, Swyddfa’r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, LL53 5AA
- Ffonio (01766) 771000